OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2537

# Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2001

**Adolygu penderfyniadau – Cam 2**

**10.**—(1) Yn dilyn adolygiad o benderfyniad yn unol â rheoliad 9 uchod caiff Uned Apelau Cymorthdaliadau Amaethyddol y Cynulliad Cenedlaethol —

(a) cadarnhau y penderfyniad;

(b) diwygio neu newid y penderfyniad mewn unrhyw agwedd y mae yn credu ei bod yn briodol; neu

(c) diddymu'r penderfyniad yn ei gyfanrwydd a rhoi penderfyniad newydd yn ei le.

(2) Rhaid i'r Uned Apelau roi ei benderfyniad o dan baragaff (1) uchod yn ysgrifenedig, gan nodi'r ffeithiau y seilir y penderfyniad arnynt a'r rhesymau dros y penderfyniad.

(3) Mewn achos pan na fydd penderfyniad yn darparu'r rhwymedi a bennir gan y ceisydd yn unol â rheoliad 8(2)(d) uchod, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnig cyfle i'r ceisydd apelio yn erbyn y penderfyniad a adolygwyd i bersonau a benodir ganddo.